# Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

**2021 dsc 1**

## RHAN 6

PERFFORMIAD PRIF GYNGHORAU A'U LLYWODRAETHU

## PENNOD 1

PERFFORMIAD, ASESIADAU PERFFORMIAD AC YMYRRAETH

*Arolygiadau arbennig gan Archwilydd Cyffredinol Cymru*

### 99 Pwerau mynediad ac arolygu etc. yr Archwilydd Cyffredinol: rhybudd a thystiolaeth adnabod

(1) Ni chaiff arolygydd fynd i fangre prif gyngor wrth arfer y pwerau o dan adran 98(1) (pwerau i fynd i fangre cyngor a gwneud pethau at ddibenion arolygiad arbennig)—

(a) oni fo arolygydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r cyngor, a

(b) oni cheir o leiaf dri diwrnod gwaith rhwng y diwrnod y mae'r arolygydd yn rhoi'r rhybudd a'r diwrnod y mae'r arolygydd yn mynd i'r fangre.

(2) Ni chaiff arolygydd arfer y pwerau o dan adran 98(2) (pwerau i'w gwneud yn ofynnol darparu dogfennau, cyfleusterau a chymorth)—

(a) oni fo arolygydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r cyngor, a

(b) oni cheir o leiaf dri diwrnod gwaith rhwng y diwrnod y mae'r arolygydd yn rhoi'r rhybudd a'r diwrnod y mae'n ofynnol i'r cyngor ddarparu'r ddogfen, y cyfleusterau neu'r cymorth.

(3) Nid yw'r gofynion yn is-adrannau (1) a (2) yn gymwys os yw arolygydd yn ystyried y byddai rhoi rhybudd i brif gyngor yn niweidio, neu'n debygol o niweidio, arolygiad arbennig o'r cyngor hwnnw.

(4) Ni chaiff arolygydd arfer y pŵer o dan adran 98(3) (pŵer i'w gwneud yn ofynnol i bersonau ddod gerbron arolygydd)—

(a) oni fo arolygydd wedi rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r person, a

(b) oni cheir, rhwng y diwrnod y mae'r arolygydd yn rhoi'r rhybudd a'r diwrnod y mae'n ofynnol i'r person ddod gerbron yr arolygydd—

(i) o leiaf dri diwrnod gwaith os yw'r person yn aelod o brif gyngor neu'n aelod o staff prif gyngor, neu

(ii) o leiaf saith niwrnod gwaith mewn unrhyw achos arall.

(5) Caniateir rhoi rhybudd o dan is-adran (1) neu (2) i brif gyngor drwy—

(a) gadael y rhybudd ym mhrif swyddfa'r cyngor;

(b) anfon y rhybudd drwy'r post dosbarth cyntaf, neu drwy wasanaeth arall sy'n darparu ar gyfer ei ddanfon yn ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf, i brif swyddfa'r cyngor;

(c) anfon y rhybudd i unrhyw gyfeiriad e-bost y mae'r cyngor wedi ei bennu ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru at ddibenion cael rhybuddion o dan yr adran hon.

(6) Caniateir rhoi rhybudd o dan is-adran (4) i aelod o brif gyngor neu aelod o staff prif gyngor drwy—

(a) gadael y rhybudd ym mhrif swyddfa'r cyngor;

(b) anfon y rhybudd drwy'r post dosbarth cyntaf, neu drwy wasanaeth arall sy'n darparu ar gyfer ei ddanfon yn ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf, i brif swyddfa'r cyngor;

(c) rhoi'r rhybudd drwy law'r person;

(d) gadael y rhybudd ym mhreswylfa hysbys olaf y person;

(e) anfon y rhybudd drwy'r post dosbarth cyntaf, neu drwy wasanaeth arall sy'n darparu ar gyfer ei ddanfon yn ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf, i breswylfa hysbys olaf y person.

(7) Caniateir rhoi rhybudd o dan is-adran (4) i berson ac eithrio aelod o brif gyngor neu aelod o staff prif gyngor drwy—

(a) rhoi'r rhybudd drwy law'r person;

(b) gadael y rhybudd ym mhreswylfa neu fan busnes hysbys olaf y person;

(c) anfon y rhybudd drwy'r post dosbarth cyntaf, neu drwy wasanaeth arall sy'n darparu ar gyfer ei ddanfon yn ddim hwyrach na'r diwrnod gwaith nesaf, i breswylfa neu fan busnes hysbys olaf y person.

(8) Rhaid i'r arolygydd ddangos tystiolaeth ei fod yn arolygydd os yw person y mae'r arolygydd yn ceisio arfer pŵer yn ei gylch o dan adran 98 yn gofyn iddo wneud hynny (ac os nad yw'r arolygydd yn dangos y dystiolaeth honno nid yw'r pŵer yn arferadwy).